



## Trefniadau a Pholisi Derbyn Ysgolion 2020-2021

### 1. YR AWDURDOD DERBYN

'Awdurdod Derbyn' syh rheoli ac yn gweinyddu mynediad plant i ysgolion. Yn achos ysgolion cymunedol, yr awdurdod lleol yw hwn, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn unol â Rheoliadau Addysg (Meysydd Perthnasol ar gyfer Ymgynghori ar Drefniadau Derbyn) 1999, yr ardal berthnasol ar gyfer yr awdurdod derbyn yw ardal ddaearyddol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Pan fo'r awdurdod lleol yr awdurdod derbyn, mae dyletswydd ar gorff llywodraethu'r ysgol i weithredu penderfyniad yr awdurdod lleol ar geisiadau, ac i weithredu'n unol â threfniadau derbyn yr awdurdod lleol.

**Mae'r awdurdod lleol yn adolygu ei drefniadau derbyn ar gyfer addysg statudol ac anstatudol yn barhaus ac yn cadw'r hawl i'w diwygio.**

Nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw drefniadau ar gyfer darparu addysg mewn ysgolion nas cynhelir gan awdurdod lleol.

#### **Derbyn i ysgol wirfoddol a reolir**

Un ysgol wirfoddol a reolir a geir yn y fwrdeistref sirol, sef Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai, a ariennir gan yr awdurdod lleol. Mae'r meini prawf derbyn yn gyson â meini prawf derbyn yr awdurdod lleol, yn unol â'r manylion yn y polisi hwn, ac â Gweithred Ymddiriedolaeth yr ysgol. Rheolir trefniadau apelio gan yr awdurdod lleol ac maent yn gyson â darpariaeth y Weithred Ymddiriedolaeth.

#### **Derbyn i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir**

Mae pum ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn y fwrdeistref sirol, a ariennir yn bennaf gan yr awdurdod lleol. Corff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir yw'r awdurdod derbyn sy'n gyfrifol am yr holl drefniadau derbyn.

Y pum ysgol wirfoddol a gynorthwyir yn y fwrdeistref sirol yw:

1. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Pen-y-bont ar Ogwr
2. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig, Maesteg
3. Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert, Abercynffig
4. Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis
5. Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath

Cynghorir rhieni/gofalwyr sy'n dymuno i'w plant gael eu derbyn i'r ysgolion hyn gysylltu â'r ysgol berthnasol am ragor o wybodaeth.

### **Trefniadau gydag awdurdodau lleol eraill**

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud y trefniadau canlynol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf lle y ceir lleoedd dros ben:

1. Caiff disgyblion Ysgol Gynradd Abercerdin fynychu Ysgol Gyfun Tonyrefail a bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am gostau cludiant.
2. Caiff disgyblion Ysgol Gynradd Dolau, Ysgol Gynradd Brynna ac Ysgol Gynradd Llanharan fynychu Ysgol Gyfun Pencoed a bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am gostau cludiant.
3. Caiff disgyblion o'r fwrdeistref sirol fynychu'r Uned Gymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau a bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am unrhyw gostau cludiant i ddisgyblion cymwys, ond dim ond os yw'r disgyblion hynny'n byw'n agosach i Ysgol Gynradd Dolau nag i Ysgol Bro Ogwr.

### **Ysgolion arbennig**

Mae'r ddwy ysgol arbennig yn y fwrdeistref sirol yn ganolfannau rhanbarthol a derbynnir disgyblion o awdurdodau lleol cyfagos. Nid yw derbyniadau i'r ysgolion hyn wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r polisi hwn ac nid ydynt yn ddarostyngedig iddo.

## **2. DEWIS RHIENI**

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i ystyried yr egwyddor gyffredinol y dylai disgyblion gael eu haddysgu'n unol â dymuniadau eu rhieni, cyn belled â bod hynny'n gyson â darparu addysg effeithlon ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol (A.9 o Ddeddf Addysg 1996).

O fewn y fwrdeistref sirol, mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu (ei dalgylch), ond mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi'r cyfle i rieni/gofalwyr fynegi dewis cadarnhaol ar gyfer yr ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae rhieni/gofalwyr yn ddigon hapus i ddewis eu hysgol ddalgylch, ond mae'r gyfraith yn mynnu bod rhieni/gofalwyr yn dewis yr ysgol honno drwy gais derbyn i ysgol neu gais derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffurflen gais yn caniatáu i rieni/gofalwyr restru mwy nag un ysgol yn nhrefn blaenoriaeth.

Ni ddylai rhieni/gofalwyr dybio'n awtomatig y bydd lle ar gael ar gyfer eu plentyn mewn ysgol benodol, hyd yn oed os honno yw eu hysgol ddalgylch. Mae gan yr awdurdod lleol

ddyletswydd i fodloni'r dewisiadau derbyn a fynegir gan rieni/gofalwyr cyn y rhai hynny nad ydynt wedi mynegi unrhyw ddewis. O ganlyniad, ar gyfer y cylchoedd derbyn arferol, mae'n rhaid i rieni/gofalwyr sicrhau eu bod yn cofnodi eu dewis derbyn i ysgol, a bod y cais yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod lleol erbyn y dyddiad terfyn a bennir.

### **Amgylchiadau pan na fydd y ddyletswydd i gydymffurfio â dewis y rhieni yn berthnasol**

Nid yw dyletswydd yr awdurdod lleol a llywodraethwyr ysgolion i gydymffurfio â dewis y rhieni yn berthnasol pan fydd:

- derbyn y plentyn yn niweidiol i ddarpariaeth addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau;
- y plentyn wedi ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy. Nid yw'r gofyniad i gydymffurfio â dewis rhieni yn berthnasol am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl yr ail waharddiad. Nid yw hyn yn berthnasol i
  - 1 blant a oedd yn iau na'r oedran addysg orfodol pan gawsant eu gwahardd nac i ddisgyblion a gafodd eu derbyn yn ôl ar ôl cael eu gwahardd; neu
  - 2 pan fyddai derbyn yn anghydnaws â'r ddyletswydd statudol i gadw at y rheoliadau maint dosbarthiadau babanod (gweler Adran 8).

### **3. CAPASITI YSGOLION**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi methodoleg cyfrifo capasiti ar gyfer pob ysgol. Nod y fethodoleg hon yw darparu dull cadarn a chyson o asesu capasiti pob ysgol ac mae wedi'i seilio ar faint o le sydd ar gael mewn ysgol a'r defnydd a wneir ohono. Mae'r cyfrifiad capasiti yn galluogi'r awdurdod lleol i gyfrifo Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer pob ysgol.

Mae'n rhaid i awdurdod lleol dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig ym mhob grŵp blwyddyn mewn ysgol. Mae canllawiau a gyhoeddwyd yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 021/2011 yn nodi "Gan fod y nifer derbyn yn adlewyrchu gallu'r ysgol i dderbyn disgyblion, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid rhagori ar y nifer hwn".

### **4. RHEOLIADAU DERBYNIADAU YSGOL (MEINTIAU DOSBARTHIAU BABANOD) (CYMRU) 2013**

Er mwyn gwella safonau addysg mewn ysgolion, mae'r rheoliadau hyn yn cyfyngu nifer y plant mewn dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 pan fo un athro yn bresennol. Caiff yr awdurdod lleol wrthod derbyn i ddosbarthiadau yn y grwpiau blwyddyn hyn ar sail niwed i faint dosbarthiadau babanod os yw'r nifer derbyn cyhoeddedig wedi'i gyrraedd eisoes.

Fodd bynnag, ceir nifer o 'eithriadau' cyfyngedig penodol sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol dderbyn mwy na'r uchafswm arferol ar gyfer maint dosbarth babanod, e.e. derbyn plant sy'n derbyn gofal neu a arferai dderbyn gofal.

## 5. CYFEIRIAD PLENTYN A RHOI GWYBODAETH ANWIR

Wrth ystyried a yw plentyn yn byw o fewn dalgyllch ysgol, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried man preswyllo arferol y plentyn yn gyfeiriad cartref a hwn fydd yn bodloni'r meini prawf derbyn.

Pan nad yw rhieni/gofalwyr y plentyn yn byw gyda'i gilydd ond eu bod yn rhannu'r cyfrifoldeb am y plentyn, a bod y plentyn yn byw gyda'r ddau riant/gofalwr am ran o'r cyfnod pan fydd y plentyn yn derbyn addysg, ystyrir bod y plentyn yn preswyllo'n arferol yn y cyfeiriadau lle mae'r **ddau** riant/gofalwr yn preswyllo'n arferol. Yn unol â hynny, bydd yr awdurdod lleol yn derbyn cyfeiriad y naill riant/gofalwr neu'r llall fel man preswyllo arferol y plentyn.

Os bydd man preswyllo arferol y plentyn yn newid ar ôl cyflwyno'r cais derbyn i ysgol, mae'n rhaid rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith.

Cyhoeddir mapiau dalgyllch ysgolion ar wefan yr awdurdod lleol:

<https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/derbyniadau-i-ysgolion/>

Pan fo riant/gofalwr yn rhoi gwybodaeth anwir neu fwriadol gamarweiniol am fan preswyllo'r plentyn er mwyn manteisio ar le mewn ysgol benodol, na fyddai'r plentyn â hawl i fynd iddi fel arall, mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig yn ôl. Pan gaiff lle ei dynnu'n ôl, ystyrir y cais o'r newydd ar sail y man preswyllo cywir, a chynigir hawl i apelio pe gwrthodir lle yn yr ysgol(ion) a ddewisir. Pan fo amheuaeth ynglŷn â man preswyllo arferol plentyn, mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i ofyn am ragor o dystiolaeth gan yr ymgeisydd (gallai dystiolaeth o'r fath gynnwys, ond ni fyddai o reidrwydd yn gyfyngedig i, fil cyfleustodau neu ddatganiad treth gyngor).

## 6. CEISIADAU A WNEIR AR SAIL NEWID MAN PRESWYLLO YN Y DYFODOL

Disgwylir i rieni / gofalwyr gofnodi'r cyfeiriad presennol lle mae eu plentyn fel arfer yn preswyllo ar gais derbyn ysgol.

Pan fo rhieni / gofalwyr yn y broses o symud tŷ ac yn mynegi dewis ar gyfer ysgol sef yr ysgol dalgyllch ar gyfer y cyfeiriad yn y dyfodol, maeh **rhaid** darparu dystiolaeth ysgrifenedig i'r awdurdod lleol:

- dystiolaeth ysgrifenedig gan gyfreithiwr sy'n nodi bod y gwerthiant hwnnw wedi'i gwblhau, bod contractau wedi'u cyfnewid, a bod dyddiad symud wedi'i gytuno i ddangos y bydd y plentyn yn byw yn y cyfeiriad erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo; neu
- cytundeb tenantiaeth yn ysgrifenedig yn dangos y bydd y plentyn yn byw yn y cyfeiriad newydd erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo.

Mae'n **rhaid** i'r awdurdod lleol dderbyn yr holl dystiolaeth ofynnol cyn neilltuo a chynnig y lleoedd. Os na dderbynnir y dystiolaeth cyn dyrannu a chynnig lleoedd, bydd y cais yn cael ei drin fel cais y tu allan i ddalgyllch i'r ysgol / au dewisol.

Os nad yw'r dystiolaeth yn cadarnhau y bydd y plentyn yn preswyllo yn y cyfeiriad newydd erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn ymwneud â hi, bydd y cais yn cael ei drin fel cais y tu allan i ddalgyllch i'r ysgol ddewisol.

## **7. PLANT PERSONÉL LLUOEDD ARFOG Y DU A GWEISION ERAILL Y GORON (gan gynnwys diplomyddion)**

Ar gyfer cylchoedd derbyn arferol, bydd plant personél lluoedd arfog y DU a gweision eraill y goron yn cael eu trin fel plant 'yn y dalgylch' **ar yr amod bod** llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad wedi'i atodi i'r ffurflen gais yn datgan dyddiad dychwelyd a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

Mae'n bosibl y bydd plant personél lluoedd arfog y DU a gweision eraill y goron (gan gynnwys diplomyddion) yn cael statws disgybl sydd wedi'i eithrio at ddibenion maint dosbarth babanod pan fyddant yn cael eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol.

## **8. ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG**

Yn unol â gofynion statudol, polisi'r awdurdod lleol yw y dylai pob plentyn gael y cyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Darperir ar gyfer hyn yn y ffyrdd canlynol:

1. Addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.
  - a) Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, mae pob disgybl yn dysgu Cymraeg. Rhoddir pwyslais ar ddefnyddio'r iaith yn bwrpasol ac mewn sefyllfaoedd ystyrlon. Yn ogystal â hyn, anogir plant i ddefnyddio'r iaith yn achlysurol yn ystod y diwrnod ysgol.
  - b) Yn ystod cyfnod allweddol 2, datblygir yr iaith ymhellach ar lafar, gyda mwy o bwyslais ar sgiliau darllen ac ysgrifennu.
  - c) Yn ystod cyfnod allweddol 3, mae pob disgybl yn dysgu Cymraeg ac mae'n orfodol yng nghyfnod allweddol 4. Darperir cyfleoedd ym mhob ysgol i ddisgyblion barhau â'u hastudiaethau ar gyfer yr arholiadau 16+ a Safon Uwch.
2. Darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.
  - a) Mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael yn y pedair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i bob disgybl y mae ei rieni yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg ar ei gyfer.
  - b) Mae'n bosibl y bydd rhieni/gofalwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn dymuno i'w plentyn/plant fynychu'r ysgol newydd Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd (Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw yn flaenorol). Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau cludiant ar gyfer disgyblion cymwys, ond dim ond os yw'r disgyblion hynny yn byw yn agosach at Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd nag at Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.
  - c) Mae'n bosibl y bydd rhieni/gofalwyr sy'n byw yn nwyrain y fwrdeistref sirol yn dymuno i'w plant fynychu'r Uned Gymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau. Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau cludiant ar gyfer disgyblion cymwys, ond dim ond os yw'r disgyblion hynny yn byw yn agosach at Dolau nag at Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.
  - ch) Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff pob pwnc ei addysgu a phob a gweithgaredd ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg.

d) Cyflwynir Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2. Er y caiff pob pwnc arall ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, caiff safonau'r Saesneg eu diogelu'n gyfartal.

dd) Bydd y trefniant rhwng awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf yn caniatáu i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gyfun Llanhari ar hyn o bryd barhau â'u haddysg yn yr ysgol.

Rheolir lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg trwy ddefnyddio'r un meini prawf derbyn a nodir yn yr adran berthnasol yn y polisi hwn.

## 9. DERBYN Y TU ALLAN I'R GRŴP OEDRAN ARFEROL

O bryd i'w gilydd, bydd rhieni/gofalwyr yn ceisio lle ysgol i'w plentyn nad yw'n cyfateb i'w oedran arferol ar gyfer plant dawnus neu dalentog, neu blant sydd wedi dioddef problemau neu sydd wedi colli rhan o flwyddyn oherwydd salwch.

Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried pob cais yn ofalus ac yn gwneud penderfyniadau ar sail amgylchiadau pob achos. Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried yr hyn sydd fwyaf o fudd i'r plentyn ac, ym mhob achos, yn gofyn am wybodaeth gan y rhieni, yr ysgol a seicolegydd addysg i lywio ei benderfyniad.

Os yw'r awdurdod lleol yn credu bod cais am le mewn grŵp nad yw'n cyfateb i oedran y plentyn yn briodol ond bod y cais hwnnw'n cael ei wrthod am nad oes lleoedd ar gael yn yr ysgol, bydd y rhiant/gofalwr yn cael cynnig yr hawl i apelio. Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio os oes lle wedi'i gynnig, ond nid yn y grŵp blwyddyn y gwnaed y cais amdano (h.y. pan gynigir lle yn y grŵp blwyddyn sy'n gronolegol gywir ar gyfer oedran y plentyn).

## 10. CANLYNIAD CEISIADAU DERBYN/TROSGLWYDDO

Rhoddir gwybod i rieni/gofalwyr yn ysgrifenedig am ganlyniad eu cais derbyn i ysgol neu gais derbyn/trosglwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn.

Os gwrthodir y cais, bydd yr hysbysiad yn nodi'r rhesymau am y penderfyniad ac yn dweud wrth y rhieni/gofalwyr beth fydd y broses apêl. Dylai rhieni/gofalwyr nodi **nad oes hawl i apelio ar gyfer addysg anstatudol, e.e. addysg feithrin.**

## 11. RHESTRAU AROS

Mae gan yr awdurdod lleol restrau aros ar gyfer ysgolion lle mae mwy o geisiadau wedi dod i law nac o leoedd yn yr ysgol. Bydd plentyn yn cael ei gynnwys yn awtomatig ar y rhestr aros oni bai bod rhiant/gofalwr wedi dweud yn benodol wrth yr awdurdod lleol nad yw hyn yn ofynnol.

Ar gyfer y cylchoedd derbyn arferol, bydd plant yn parhau i fod ar y rhestr aros, ar gyfer unrhyw ysgol y gwrthodwyd lle iddo ynddi, tan 30 Medi 2020. Ar gyfer pob cais a dderbyniwyd y tu allan i'r cylch derbyn arferol, bydd plant yn parhau i fod ar restr aros unrhyw ysgol y gwrthodwyd lle iddo ynddi am gyfnod o 3 mis o ddyddiad y gwrthodiad. Bydd plant yn cael eu tynnu oddi ar y rhestrau aros yn awtomatig ar ôl i'r cyfnodau hyn ddod i ben.

Nid yw cyflwyno cais newydd yn adnewyddu lle plentyn ar restr aros. Os cyflwynir cais newydd a'i wrthod, bydd y plentyn yn cael ei gofnodi fel cofnod newydd i'r rhestr aros o ddyddiad y gwrthodiad.

Os bydd lleoedd ychwanegol yn agor mewn ysgol, byddant yn cael eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar sail y meini prawf cyhoeddedig pan fydd gormod o geisiadau (gweler adran 15 ac 16) ac **nid** ar sail yr amser y mae disgybl wedi bod ar y rhestr aros.

## 12. APELIO

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, cynigir lleoedd yn unol â dewis ysgol eu rhieni/gofalwyr. Fodd bynnag, os nad yw plentyn yn gallu cael lle yn yr ysgol a ddewisir, gallant ddewis gwneud apêl i banel annibynnol. Gall rhieni/gofalwyr dderbyn lle a gynigir mewn ysgol arall wrth iddynt geisio cael lle yn eu dewis o ysgol. Bydd y panel hwn yn ystyried y rhesymau a gynigir gan rieni dros apelio ac yn penderfynu a yw rhinweddau eu hachos yn gorbwyso'r dadleuon a gyflwynir gan yr awdurdod lleol.

Cynghorir rhieni/gofalwyr i ystyried yn ofalus polisi derbyn yr awdurdod lleol wrth benderfynu apelio ai peidio.

Dylai rhieni/gofalwyr nodi **nad oes hawl apelio ar gyfer addysg anstatudol e.e. addysg feithrin.**

Cynhelir apelïadau derbyn ysgol yn unol â Chod Apelau Derbyn Ysgol 2013.[[hypergyswllt](#)]

### Cofrestru apêl

Yn achos apêl ynghylch gwrthod lleoedd yn y cylch derbyn arferol, mae'n **rhaid** i rieni/gofalwyr gofrestru eu hapêl gyda'r awdurdod lleol erbyn y dyddiad cau a nodir yn adran 13.

Yn achos apelïadau ynghylch gwrthod lleoedd y tu allan i'r cylchoedd derbyn arferol, mae'n **rhaid** i rieni/gofalwyr gofrestru eu hapêl gyda'r awdurdod lleol o fewn 10 niwrnod gwaith i ddyddiad hysbysiad ysgrifenedig y gwrthodiad.

Maeh rhaid i rieni/gofalwyr gofrestru eu hapêl yn ysgrifenedig ac mae modd iddynt gofrestru apêl derbyn i ysgol ar-lein drwy gofrestru ar gyfer Fy Nghyfrif ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae canllawiau ar gwblhau'r cofrestriad ar gael yn <https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/derbyniadau-i-ysgolion/>

Caiff unrhyw riant/gofalwr nad oes ganddo ei gyfrifiadur/gliniadur neu ffôn clyfar ei hun, ddefnyddio'r cyfrifiaduron sydd ar gael yn y llyfrgelloedd yn y fwrdeistref sirol i gofrestru ar gyfer Fy Nghyfrif a llenwi cofrestriad ar-lein. Gall rhiant / gofalydd sy'n dal i fod yn methu â chael mynediad i'r cofrestriad ar-lein gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar rif ffôn 01656 643643 i ofyn am gofrestriad copi caled.

**Gall rhieni/gofalwyr sy'n llenwi cofrestriad apêl derbyn i ysgol ar-lein fod yn dawel eu meddwl bod y cofrestriad wedi'i dderbyn. Ni all yr awdurdod lleol fod yn gyfrifol am beidio â derbyn cofrestriad a gyflwynir trwy ryw fodd arall.**

Y rhiant/rhieni neu'r gofalwyr (gwarcheidwaid cyfreithiol) yn unig gaiff gofrestru apêl derbyn i ysgol. I fodloni'r gofyniad y cofrestrir apêl gan y rhiant/gofalwr, mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn ddeiliad Fy Nghyfrif hefyd. Heblaw ei fod eisoes wedi ei gyflwyno i'r awdurdod lleol, mae'n **rhaid** i warcheidwaid cyfreithiol gyflwyno dogfennau swyddogol, yn profi eu bod yn warcheidwaid, ar adeg cyflwyno'r cofrestrriad.

Bydd yr awdurdod lleol dim ond yn derbyn cofrestrriad apêl gan unigolyn nad yw'n rhiant/gofalwr os oes caniatâd ysgrifenedig priodol gan y rhieni/gofalwyr wedi'i atodi.

### **Trefniadau ar gyfer gwrandawriad yr apêl**

Bydd yr awdurdod lleol yn cyfeirio'r apêl at banel apêl annibynnol. Bydd clercc y panel yn trefnu amser a lleoliad ar gyfer y gwrandawriad.

Bydd rhieni/gofalwyr yn cael cyfle i fynd i wrandawriad y panel a nodi eu sylwadau (ar lafar a/neu'n ysgrifenedig).

Cynghorir rhieni/gofalwyr o'r canlynol:

1. Gallant ddewis peidio â mynd i'r cyfarfod apêl ac, yn hytrach, caniatáu i'r apêl gael ei hystyried ar sail datganiad ysgrifenedig;
2. Bydd yr apêl yn cael ei phenderfynu ar sail yr wybodaeth sydd ar gael os yw rhieni/gofalwyr wedi nodi bwriad i fod yn bresennol yn yr apêl ond nad ydynt yn gwneud hynny heb fod esboniad rhesymol;
3. Os na all rhieni/gofalwyr fod yn bresennol ar y dyddiad a drefnir, ac nid yw'n rhesymol yn ymarferol cynnig gohirio'r gwrandawriad, bydd yn rhaid i'r apêl gael ei phenderfynu ar sail yr wybodaeth sydd ar gael;
4. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig am gyfarfod y panel apêl o leiaf 14 diwrnod (10 niwrnod gwaith) ymlaen llaw, oni bai eu bod yn cytuno i gyfnod byrrach. Dylai'r rhiant/gofalwr gadarnhau hyn yn ysgrifenedig gyda chlerc y panel.

Caiff ffrind, cynghorydd neu gyfieithydd ar y pryd ddod gyda'r rhieni/gofalwyr, ond ni chaiff cynghorwyr yr awdurdod lleol fod yn bresennol. Gofynnir i rhieni/gofalwyr roi gwybod i glerc y panel apêl annibynnol am unrhyw gynrychiolaeth o leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawriad.

Mae'n bosibl y gall sefydliadau fel ACE (The Advisory Centre for Education) gynorthwyo rhieni/gofalwyr yn gysylltiedig ag apeliadau derbyn i ysgol. Ceir gwybodaeth ar wefan y sefydliad [www.ace-ed.org.uk](http://www.ace-ed.org.uk)

### **Ail Apêl**

Yn gyffredinol, nid oes gan rhieni/gofalwyr yr hawl i ail apêl mewn cysylltiad â'r un ysgol a'r un flwyddyn academaidd, ac eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:

- cafwyd diffygion yn y broses apêl gyntaf ac mae'n bosibl iawn bod y diffygion hyn wedi effeithio ar y canlyniad (gall hyn fod ar sail argymhelliad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus); neu



- pan fydd cais newydd yn dod i law oherwydd bu newid sylweddol a materol yn amgylchiadau'r rhiant/gofalwr neu'r plentyn a bod y cais hwnnw wedi'i wrthod hefyd. Enghreifftiau cyffredin o amgylchiadau pan fydd cais newydd yn cael ei ystyried yw pan fydd y teulu wedi symud i gyfeiriad newydd neu os ceir rhesymau meddygol newydd dros ddewis yr ysgol.

Gall rhieni/gofalwyr sy'n apelio'n aflwyddiannus ail-ymgeisio am le yn yr un ysgol mewn blwyddyn academaidd ddiweddarach (yn amodol ar yr amserlenni a nodir ym mharagraff 4 o adran 15). Bydd gan rhieni/gofalwyr hawl i apelio pe gwrthodir y cais hwnnw.

### **13. CYDRADDOLDEB**

Mae trefniadau derbyn y Cyngor yn ceisio cydymffurfio llawn â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol o ran cyfle cyfartal a hawliau dynol (Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993).

Hoffair cyngor i'w wasanaethau fod ar gael i'r gymuned gyfan a bydd yn herio gwahaniaethu yn ein cymunedau, boed ar sail statws trawsryweddol, hil, rhywedd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred person, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol y cyngor yn nodi sut y bydd y cyngor yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gyflawni ei swyddogaethau, gan roi sylw dyledus i'r angen i:

- gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
- datblygu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r un nodweddion; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r un nodweddion.

### **14. DIOGELU DATA**

Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod eich preifatrwydd yn bwysig ac mae'n cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae canllawiau ac egwyddorion Diogelu Data llawn yr awdurdod lleol ar gael i'w darllen ar y wefan <https://www.bridgend.gov.uk/cy/>

Cedwir unrhyw wybodaeth a ddarperir gan rhieni/gofalwyr ar ffurflen gais derbyn i ysgol, cais derbyn/trosgrwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn neu gofrestrriad apêl derbyn i ysgol ei chadw yn electronig a'i defnyddio gan yr awdurdod lleol at ddiben prosesu'r cais derbyn i ysgol neu'r apêl derbyn i ysgol.

Bydd yr awdurdod lleol yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir ar ffurflen gais derbyn i ysgol neu gais derbyn/trosgrwyddo i ysgol yn ystod y flwyddyn â'r ysgolion perthnasol yn unol â'r Datganiad Prosesu Teg – Addysg a Chymorth i Deuluoedd, sydd ar gael yn <https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/rhyddid-gwybodaeth/diogelu-data/>

## 15. TREFNIADAU DERBYN – ADDYSG FEITHRIN

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau lle mewn addysg blynyddoedd cynnar rhan-amser am ddim i blant tair oed cymwys o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Gall y lle fod mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, neu yn y sector nas cynhelir, gyda darparwr blynyddoedd cynnar cofrestredig. Pan fydd rhieni'n dewis lle gyda darparwr blynyddoedd cynnar cofrestredig, byddant yn gymwys i gael cyllid ar gyfer lle rhan-amser yn unig, boed yn lle amser llawn a gynigir neu'n un rhan-amser. Yn yr achos hwn, bydd y grant yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r darparwr. Mae lleoedd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn rhai rhan-amser ar gyfer plant tair blwydd oed (Meithrin Blwyddyn 1) ac amser llawn ar gyfer plant pedair oed (Meithrin Blwyddyn 2).

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i'r egwyddor o ddarparu ysgolion lleol i blant lleol a bydd yn gwneud pob ymdrech bosibl i sicrhau y gall rhieni gael lle i'w plentyn/plant yn eu hysgolion dalgylch, pan fydd rhieni/gofalwyr wedi mynegi dewis cadarnhaol ar gyfer yr ysgol honno.

### Dylai rhieni/gofalwyr nodi'r canlynol:

- **Ni fydd** gan ddisgyblion a dderbynnir i ddosbarth meithrin ysgol fabanod neu gynradd **hawl awtomatig i barhau â'u haddysg yn yr ysgol honno pan fyddant yn symud i ddosbarth Derbyn**. Bydd yn ofynnol i holl rhieni/gofalwyr plant sy'n mynychu dosbarth meithrin, pa un a yw'n byw yn y dalgylch sydd wedi'i ddiffinio neu'r tu allan iddo, lenwi ffurflen gais derbyn i ysgol ar gyfer yr ysgol gynradd neu'r ysgol fabanod, ar yr adeg briodol, gan nodi eu dewis o ysgol.
- **Nid oes hawl i apelio** yn achos ceisiadau meithrin.

### Ceisiadau derbyn meithrin

Dylai rhieni/gofalwyr syh dymuno gwneud cais am le meithrin mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyr fynd at yr ysgol yn uniongyrchol i ofyn am ffurflen gais derbyn i'r ysgol.

Ar gyfer derbyniadau awdurdod lleol, maeh **rhaid** i rhieni/gofalwyr plant cymwys lenwi ffurflen gais derbyn i ysgol (meithrin). Caiff rhieni/gofalwyr lenwi cais ar-lein drwy gofrestru ar gyfer Fy Nghyfrif ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ceir canllawiau i lenwi'r cais hwn yn <https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/derbyniadau-i-ysgolion/>

Caiff unrhyw riant/gofalwr nad oes ganddo ei gyfrifiadur/gliniadur neu ffôn clyfar ei hun, ddefnyddio'r cyfrifiaduron sydd ar gael yn y llyfrgelloedd yn y fwrdeistref sirol i gofrestru ar gyfer Fy Nghyfrif a llenwi cais derbyn i ysgol (meithrin) ar-lein. Gall riant / gofalydd sy'n dal i fod yn methu â chael mynediad i'r cais derbyn i ysgol ar-lein (meithrinfa) gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar rif ffôn 01656 643643 i ofyn am gais copi caled.

**Gall rhieni/gofalwyr sy'n llenwi cais derbyn i'r ysgol (meithrin) ar-lein fod yn dawel eu meddwl bod y cais wedi'i dderbyn. Ni all yr awdurdod lleol fod yn gyfrifol am beidio â derbyn cais a gyflwynir trwy ryw fodd arall.**

Y rhiant/rhieni neu'r gofalwyr (gwarcheidwaid cyfreithiol) yn unig gaiff wneud cais derbyn i ysgol (meithrin). I fodloni'r gofyniad y cyflwynir y cais gan y rhiant/gofalwr, mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn ddeiliad Fy Nghyfrif hefyd. Mae'n **rhaid** i warcheidwaid cyfreithiol gyflwyno dogfennau swyddogol, yn profi eu bod yn warcheidwaid, ar adeg cyflwyno'r cais.

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn cais gan unigolyn nad yw'n rhiant/gofalwr dim ond os oes caniatâd ysgrifenedig priodol gan y rhieni/gofalwyr wedi'i atodi.

### **Amserlen derbyniadau meithrin 2020-2021**

Ni chaiff yr amserlen ar gyfer derbyniadau meithrin ei llywodraethu gan God Derbyniadau Ysgol 2013. Mae amserlen ddisgwyliedig yr awdurdod lleol ar gyfer prosesu ceisiadau derbyn meithrin fel a ganlyn:

#### **Derbyniadau dosbarth meithrin amser llawn – disgyblion a anwyd rhwng 1 Medi 2016 a 31 Awst 2017, yn dechrau mewn dosbarth meithrin amser llawn ym mis Medi 2020:**

Cam gweithredu	Dyddiad
Ceisiadau yn agor ar	Dydd Llun 6 Ionawr 2020
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan yr awdurdod lleol	Dydd Gwener 27 Mawrth 2020
Rhoi gwybod i rieni/gofalwyr am dderbyn/gwrthod lleoedd (dyddiad y cynnig)	Dydd Gwener 15 Mai 2020

#### **Derbyniadau dosbarth meithrin rhan-amser – disgyblion a anwyd rhwng 1 Medi 2017 a 31 Rhagfyr 2017, yn dechrau mewn dosbarth meithrin rhan-amser ym mis Ionawr 2021:**

Cam gweithredu	Dyddiad
Ceisiadau yn agor ar	Dydd Llun 6 Ionawr 2020
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan yr awdurdod lleol	Dydd Gwener 27 Mawrth 2020
Rhoi gwybod i rieni /gofalwyr am dderbyn/gwrthod lleoedd	Erbyn 31 Hydref 2020

#### **Derbyniadau dosbarth meithrin rhan-amser – disgyblion a anwyd rhwng 1 Ionawr 2018 a 31 Mawrth 2018, yn dechrau mewn dosbarth meithrin rhan-amser ym mis Ebrill 2021:**

Cam gweithredu	Dyddiad
Ceisiadau yn agor ar	Dydd Llun 6 Ionawr 2020
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan yr awdurdod lleol	Dydd Gwener 27 Mawrth 2020
Rhoi gwybod i rieni /gofalwyr am dderbyn/gwrthod lleoedd (dyddiad y cynnig)	Erbyn 31 Hydref 2020

## Ceisiadau hwyr (ceisiadau a gyflwynwyd ar ôl y dyddiad cau)

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau perthnasol a gyhoeddwyd **ar yr amod** y derbynnir y cais cyn i leoedd gael eu cynnig a bod yr awdurdod lleol yn fodlon â rhesymau'r rhieni/gofalwyr am gyflwyno'r cais yn hwyr.

Bydd yr awdurdod lleol yn prosesu holl geisiadau hwyr eraill ar ôl y ceisiadau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau. Felly, gall ymgeiswyr hwyr ganfod bod eu dewis o ysgol eisoes yn llawn, hyd yn oed os mai'r ysgol honno yw eu hysgol ddalgylch.

## Dyrannu lleoedd meithrin amser llawn

